# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ0939 (FM), yn ôl.*
*Question 13, OAQ0939 (FM), withdrawn.*

### Gwaredu TB Mewn Gwartheg
### Eradicating Bovine Tuberculosis

**Q14 Brynle Williams:** Will the First Minister make a statement on the measures being taken by the Welsh Assembly Government to eradicate bovine TB? OAQ0943 (FM)

**C14 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau a gymerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i waredu TB mewn gwartheg? OAQ0943 (FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** While the eradication of bovine TB is desirable, we are currently concentrating our efforts on control, and careful consideration is being given to measures aimed at further reducing the risk to clean areas, including any that may emerge from the work of the Wales TB action group, which are practical, proportional and sustainable.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Er y byddai'n ddymunol gwaredu TB mewn gwartheg, yr ydym ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar reoli'r haint, ac mae camau i geisio lleihau'r risg ymhellach mewn ardaloedd glân yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau sy'n deillio o waith grŵp gweithredu Cymru ar TB, sy'n ymarferol, yn gyfrannol ac yn gynaliadwy.

### Gwasanaethau Deintyddol y GIG
### NHS Dental Services

**C15 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG? OAQ0929 (FM)

**Q15 David Lloyd:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to improve access to NHS dental services? OAQ0929 (FM)

**The First Minister:** We are introducing a new dental contract to improve access and dentists' working lives. A sum of £5 million is available to roll out the personal dental service schemes, encouraging dentists to stay in the NHS, which, to date, has provided an additional 14,000 NHS places. We have increased dental undergraduate training places by 17 per cent.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cyflwyno contract deintyddol newydd i wella mynediad i ddeintyddion a bywyd gwaith deintyddion. Mae swm o £5 miliwn ar gael ar gyfer rhoi'r cynlluniau gwasanaethau deintyddol personol ar waith, gan annog deintyddion i aros gyda'r GIG, sydd, hyd yma, wedi darparu 14,000 o leoedd ychwanegol gyda'r GIG. Yr ydym wedi cynyddu nifer y lleoedd i israddedigion ar gyrsiau deintyddiaeth o 17 y cant.